

ASESIAD ANGHENION GOFALWYR


CYMORTH I GAEL Y GORAU O'CH ASESIAD

Beth yw Asesiad
Anghenion
Gofalwyr?

Mae'n sgwrs gyda
gweithiwr proffesiynol am
eich anghenion fel gofalwr.

Sut mae gofalu yn
effeithio ar eich bywyd

a gweithio allan
gyda'n gilydd,
sut y gellir eich
cefnogi.



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant: Tachwedd 2021



CYNNWYS

Cyd-destun byr 1

Pwy sydd yn ofalwr? 2

Asesiad Anghenion Gofalwyr - eglurhad 3

Meddwl am yr asesiad 4

Paratoi ar gyfer yr asesiad 5

Meddwl am eich anghenion chi 6

Cwrdd â'ch anghenion 7

Beth nesaf? 8

Cefndir cyfreithiol 10

Meini prawf 11

Ble i gael gwybodaeth bellach 12

Sut i gysylltu â ni 14

CYD-DESTUN BYR

Trowch i dudalen 10 i ddarllen mwy am y cyd-destun cyfreithlon

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wna gofalwyr di-dâl mewn cymdeithas. Mae'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a ddaeth i rym yn 2016 wedi rhoi statws cyfartal i ofalwyr di-dâl a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu anghenion gofalwyr os yw'n ymddangos bod arnynt angen cefnogaeth. Gall gofalwyr apelio os ydynt yn anfodlon â chanlyniad yr asesiad.

Mae'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl gan Lywodraeth Cymru (2021) yn amlinellu pedair prif flaenoriaeth o ran yr hyn maent eisiau ei wneud i wella'r gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

BETH YDY EICH BLAENORIAETHAU CHI?

Rydym ni fel gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd yn gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn eich helpu i ddeall beth yw Asesiad Anghenion Gofalwyr ac yn eich helpu i baratoi trwy feddwl am eich blaenoriaethau eich hun. Mae'r hyn sy'n bwysig i chi, yn bwysig i ni.


Rydym eisiau eich helpu i gael y canlyniad gorau posib o'r asesiad. Mae yna lefydd gwag i chi eu defnyddio i ysgrifennu eich meddyliau os ydych chi eisiau.

Cysylltwch gydag un o'r timau i ofyn am asesiad. Gweler manylion cyswllt tudalen 14.

PWY SYDD YN OFALWR?

Yn ôl y gyfraith mae gofalwr yn –

rhywun sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal di-dâl am oedolyn oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau neu ofalu am blentyn anabl.



Nid yw nifer o bobl yn gweld eu hunain fel gofalwyr oherwydd eu bod yn gweld gofalu yn rhan o'u rôl a'u hymroddiad i'w teulu neu'n cyfrifoldeb cymdeithasol.

Efallai fod rhai gofalwyr yn derbyn Lwfans Gofalwr ond nid yw hyn yn golygu eu bod yn derbyn tâl i ofalu.

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu defnyddio'r term '**Gofalwr Di-dâl**' i helpu gwahaniaethu rhwng pobl sy'n cael eu cyflogi i ofalu, megis nyrsys a gweithwyr gofal cartref.

Mae'r math o ofal rydych yn ei ddarparu yn gallu amrywio'n fawr. O gefnogaeth emosiynol, siopa, casglu presgripsiynau, i helpu gyda gofal personol.

Yng Nghymru, mae gan ofalwyr di-dâl hawl i gael asesiad o'u hanghenion os ymddengys bod arnynt angen cefnogaeth nawr neu yn dyfodol.

Yn syml iawn mae asesiad yn sgwrs sy'n digwydd er mwyn canfod beth yw eich anghenion a sut mae modd eich cefnogi fel rhywun sy'n edrych ar ôl rhywun arall.

Mae'r syniad o asesiad yn dychryn rhai pobl gan eu bod yn teimlo fel petaent yn cael eu profi neu eu beirniadu ar eu gallu i edrych ar ôl y person maent yn ei gefnogi. Nid dyna'r sefyllfa. Mae'r asesiad yn gyfle i chi siarad am sut mae gofalu yn effeithio ar eich bywyd, fel y gallwn canfod y ffordd ymlaen gyda'n gilydd, a sut orau i'ch cefnogi.

Gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar eich amgylchiadau presennol a'r pethau yr hoffech eu gwneud efallai, ond sy'n anodd i chi ar hyn o bryd oherwydd eich cyfrifoldebau gofalu. Pethau fel treulio amser gydag aelodau eraill o'r teulu, cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, hobiau, neu amser i ymlacio. Rydyn ni'n galw y rhain yn 'ddeilliannau personol'.

Rydym wedyn yn edrych ar eich cryfderau, pethau sy'n eich atal rhag cyflawni eich deilliannau ac unrhyw broblemau posib. Wrth wneud hyn, byddwn yn canfod eich anghenion cefnogaeth ac yn edrych ar ffyrdd o gael gafael ar gefnogaeth os oes angen.

Gellir cynnal asesiad ar wahân neu ar y cyd â'r person rydych yn gofalu amdano. Mae angen caniatâd ar gyfer hyn.

MEDDWL AM YR ASESIAD

Rhai pethau y gallwch ystyried cyn yr asesiad. Siaradwch gyda'ch gweithiwr gofal cymdeithasol os oes gennych unrhyw cwestiynau.

EIN HADDEWID I CHWI

Byddwn yn gwranddo arnoch, yn bod yn gwrtais ac yn eich trin fel partner cyfartal gyda pharch ac urddas.

CEFNOGAETH AG EIRIOLAETH

Mae'r hawl gennych i gael cefnogaeth yn ystod yr asesiad os ydych chi angen neu'n dymuno hyn. Gall hyn fod yn ffrind, yn aelod o'r teulu neu rywun o'ch rhwydwaith cefnogi. Gallent helpu i sicrhau eich bod yn deall beth sy'n digwydd a bod eich llais yn cael ei glywed.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen eiriolydd proffesiynol. Fe wneir y penderfyniad yma mewn partneriaeth gyda chi.

COFIWCH

Hyd yn oed os yw'r person rydych yn gofalu amdano wedi gwrthod asesiad neu gefnogaeth, gallwch chi dderbyn asesiad o'ch anghenion chi fel gofalwr. Gallwch ofyn am hyn ar amser/lle sy'n gyfleus i chi. Yn eich cartref chi, cartref y person rydych yn gofalu amdano neu rywle arall os yw hynny'n well i chi.

Mae nifer o ofalwyr di-dâl yn gweld y broses hon yn un ddefnyddiol; "...wnaeth (*y Gweithiwr Cymdeithasol*) *gydweithio'n drylwyr i'n cefnogi ni... ac fe'm cefnogodd i gwblhau fy asesiad gofalwyr fy hun, gan sicrhau bod fy anghenion yn cael eu canfod yn llawn*" (dyfyniad o Mesur y Mynydd: MtM.Wales).

PARATOI AR GYFER YR ASESIAD

Mae'r asesiad yn edrych ar y elfennau yma.

Cymerwch amser i feddwl amdanynt a sut, os ydynt, yn berthnasol i chi.

EICH RÔL GOFALU A SUT MAE'N
EFFEITHIO AR EICH BYWYD A'CH
LLESIANT

EICH IECHYD CORFFOROL,
MEDDYLIOL AC EMOSIYNOL

EICH TEIMLADAU A'CH
DEWISIADAU AM RÔL GOFALU

EICH GWAITH, ASTUDIAETHAU,
HYFFORDDIANT A'CH HAMDDEN

EICH PERTHNASAU, GWEITH -
GAREDDAU CYMDEITHASOL A'CH
NODAU PERSONNOL


UNRYW BRYDERON ARIANNOL A
THAI

CYNNAL EICH HUNANIAETH EICH
HUN

AMSER I CHI

CYNLLUNIO AR GYFER
ARGYFYNGAU

MEDDWL AM EICH ANGHENION



Mae'r gofalwyr y gwnaethon ni siarad gyda nhw wedi awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried y pethau hyn wrth i chi feddwl am eich sefyllfa eich hun. Beth sy'n bwysig i chi a pha gefnogaeth y gallech fod ei hangen?

Mae eich sefyllfa chi'n unigryw ac nid oes atebion cywir nac anghywir. Meddylwch am yr hyn sy'n mynd yn dda ac unrhyw feysydd lle gallai fod angen cefnogaeth arnoch chi.

Gallwch wneud nodiadau os yw'n helpu.

CWRDD Â'CH ANGHENION

Mae hyn yn ymwneud â sut mae modd cwrdd â'ch anghenion nodedig.

Yn dilyn yr asesiad, byddwch chi a'r Gweithiwr Cymdeithasol yn edrych ar eich anghenion fel a nodwyd, ac yn penderfynu ar y ffordd ymlaen gyda'ch gilydd.

Cofiwch y gall eich anghenion newid ac y gallwch ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg.

ALLWCH CHI FODLONI'R ANGEN EICH HUN?

Mae'n bosib y gallwch chi eich hun gwrdd â rhai o'ch anghenion, ond efallai y bydd angen cefnogaeth arnoch i gwrdd ag anghenion eraill.

GYDAG ERAILL SY'N FODLON HELPU?

Efallai y gallwch gael cefnogaeth gan deulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill sy'n fodlon eich cefnogi.

TRWY DDEFNYDDIO GWASANAETHAU SYDD AR GAEL YN Y GYMUNED?

Efallai y gallwch gael cefnogaeth gan wasanaethau, grwpiau neu weithgareddau lleol yn y gymuned. Mae grwpiau cymorth yn cael eu trefnu gan amryw o sefydliadau megis Cynnal Gofalwr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr ac eraill sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.

BETH NESAF?

Gall y gweithiwr gofal cymdeithasol yn trafod hyn ymhellach gyda chi fel bo angen.

CANLYNIADAU O BOSIB

Bod angen **gwybodaeth a chyngor** yn unig ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys cyngor ar sut i gael mynediad i ofal a chefnogaeth gan gynnwys darparwyr gofal lleol y gallech eu defnyddio.

Hefyd, eich cynghori ar sut i gael cyngor ariannol a sut i gael mynediad at wasanaethau ataliol megis Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr sy'n cynnig amryw o wasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Gallai eich anghenion fod yn **gymwys am gynllun cefnogi** (gweler tudalen 14 am y meini prawf cymhwyster). Ar ôl cytuno ar eich anghenion cefnogaeth, bydd cynllun cefnogi yn nodi beth yw'r anghenion cymwys gan gynnwys sut, pa bryd a gan bwy y bydd yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

Dyma rai enghreifftiau o'r math o gefnogaeth a allai fod ar gael: darparu technoleg gynorthwyol megis Teleofal, cymorth gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, cymhorthion ac addasiadau i'ch cartref, cefnogaeth i gael egwyl fer a chefnogaeth i'r person rydych yn gofalu amdano.

Efallai fod yr angen yn cael ei fodloni eisoes, neu bod modd ei fodloni drwy ffyrdd eraill a'ch bod chi'n fodlon gyda'r trefniant hwn.

Mae'n bwysig ystyried nad yw pob asesiad yn arwain at gael gwasanaethau gan yr awdurdod lleol. Yn aml iawn mae gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ddigon.

Mae gennych yr hawl i dderbyn copi o'r asesiad a'r cynllun cefnogi. Gallwch ofyn am adolygiad os bydd eich anghenion yn newid.

Os yw eich asesiad yn dangos eich bod yn gymwys am wasanaethau gan yr awdurdod lleol, bydd y gweithiwr gofal cymdeithasol yn trafod yr opsiynau gyda chi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw oblygiadau ariannol posib.

Y Polisi Codi Tâl

Efallai y codir tâl am rai gwasanaethau, ac mae Cyngor Gwynedd yn cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth benderfynu a oes angen i unigolion gyfrannu at gost y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y gweithiwr gofal cymdeithasol yn egluro hyn i chi.

Taliadau Uniongyrchol

Os ydych yn gymwys, cynigir taliadau uniongyrchol i chi fel opsiwn. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol yn talu swm cytunedig i'ch cyfrif banc fel y gallwch chi benderfynu pwy sy'n eich cefnogi a threfnu pa bryd y byddant yn eich cefnogi. Mae'r trefniant yma yn rhoi dewis, rheolaeth a hyblygrwydd i chi - chi sy'n rheoli sut a phryd mae'r gofal neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Gallwch drafod hyn ymhellach gyda'r gweithiwr gofal cymdeithasol. Mae cymorth a chefnogaeth ar gael os dewiswch yr opsiwn yma.

Gall y gweithiwr gofal cymdeithasol drafod hyn ymhellach gyda chi os oes angen.

Os hoffech ddarllen mwy am y cefndir cyfreithiol, ewch i'r adran gwybodaeth bellach yn y llyfryn hwn.

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol.

Llais a Rheolaeth; Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar; Llesiant a Chyd-gynhyrchu; Am ragor o wybodaeth am hyn, dilynwch y ddolen yn yr adran gwybodaeth bellach yn y llyfryn hwn.

Mae'r Ddeddf yn diffinio gofalwr fel "rhywun sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl".

EICH HAWLIAU

Mae gennych yr hawl i dderbyn Asesiad Anghenion Gofalwyr ac i dderbyn copi o'r asesiad.

Os yw'r awdurdod lleol o'r farn fod arnoch angen cefnogaeth (neu'n debygol o fod angen cefnogaeth yn y dyfodol), mae'n rhaid iddynt asesu a oes angen cefnogaeth arnoch.

MEINI PRAWF CYNHWYSTER

Yn dilyn yr asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu os oes gennych anghenion cymwys am ofal a chymorth. Bydd eich anghenion yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf cymhwyster a nodir yn rheoliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Amlinellir y rhain ar y dudalen nesaf.

Os yw'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl;

Mae'r angen yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r deilliannau a ganlyn:

- 1 Y gallu i gyflawni hunan-ofal neu arferion domestig;
- 2 Y gallu i gyfathrebu;
- 3 Amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- 4 Bod yn rhan o waith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden;
- 5 Cynnal neu ddatblygu perthnasau teuluol neu berthnasau personol pwysig eraill;
a/neu
- 6 Ddatblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol ac ymwneud yn y gymuned.
- 7 Cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn.

Nid yw'r gofalwr yn gallu bodloni'r angen:

- 1 Ei hun;
- 2 Gyda chymorth pobl eraill sy'n fodlon helpu; neu
- 3 Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y gall y gofalwr gael mynediad atynt;
AC

Mae'r gofalwr yn annhebygol o gyflawni un neu ragor o'i ddeilliannau personol.

Hyd yn oed os yw gofalwr yn gallu bodloni'r angen ei hun neu gyda chymorth eraill, mae'n rhaid ei ystyried fel rhywun nad yw'n gallu bodloni'r angen petai gwneud hynny yn:

- 1 Achosi poen, gofid neu straen difrifol i'r person hwnnw;
- 2 Peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch y person hwnnw neu berson arall; neu
- 3 Cymryd llawer iawn hirach i'r person hwnnw nag a ddisgwylir yn arferol.

BLE I GAEL GWYBODAETH BELLACH

Mae'r adran hon yn cynnwys dolenni i wybodaeth gyffredinol. Bydd eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn gallu rhoi gwybodaeth i chi sy'n berthnasol i'ch sefyllfa ofalu.

EDRYCH AR ÔL RHYWUN? Gwybodaeth am wasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/lechyd-a-gofal-cymdeithasol---dogfennau/Gofalwyr/Llyfr-edrych-ar-ol-Rhywun-6.pdf>

EDRYCH AR ÔL FY HUN: Gwybodaeth am wasanaethau llesiant lleol Gwynedd

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/lechyd-a-gofal-cymdeithasol---dogfennau/Edrych-ar-%C3%B4l-fy-hun-2021.pdf>

Mae llyfrynnau wybodaeth ar gael mewn llyfrgelloedd ac ar wefan y cyngor. www.gwynedd.llyw.cymru

GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR 01248 370797

<https://carersoutreach.org.uk/>

Yn ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth i ofalwyr ac yn cyhoeddi newyddlen yn rheolaidd i ofalwyr.

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR 02920 090087 www.carers.org/wales

GOFALWYR CYMRU 02920811370 www.carersuk.org/wales

Tafleini wybodaeth ar gael i ofalwyr. Llinell Gymorth 0808 808 7777 ar agor Llun i Gwener, 9yb – 6yh

DEWIS WALES <https://www.dewis.wales/>

Gwefan cenedlaethol gyda gwybodaeth lleol am wasanaethau llesiant a ffynonellau gwybodaeth i ofalwyr.

LLYWODRAETH CYMRU

CAEL MYNEDIAD AT WASANAETHAU GOFAL A CHYMORTH (GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION)

<https://ymchwil.senedd.cymru/media/1annkp3n/access-to-care-services-welsh.pdf>

Dogfen gyda canllawiau ag eglurhad glir. Rhestr o ffynonellau cefnogaeth a llawer o wybodaeth bellach.

DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf>

STRATEGAETH AR GYFER GOFALWYR DI-DÂL 2021

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal.pdf>

DEALL EICH HAWLIAU FEL GOFALWR

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/deall-eich-hawliau-fel-gofalwr.pdf>

SUT I GYSYLLTU Â NI



TÎMAU OEDOLION (gweler map)

Bangor – 01248 363 240

loedolionbangor@gwynedd.llyw.cymru

Caernarfon – 01286 679 099

loedolioncaernarfod@gwynedd.llyw.cymru

Llŷn - 01758 704 099

loedolionllyn@gwynedd.llyw.cymru

Gogledd Meirionnydd - 01766 510 300

OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

De Meirionnydd – 01341 424 572

loedoliondemeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

TÎMAU IECHYD MEDDWL

Arfon – 01248 363470

De Gwynedd – 03000 852407

TÎMAU ANABLEDDAU DYSGU

Arfon – 01286682751

TimAnabledDysguArfon@gwynedd.llyw.cymru

De Gwynedd - 01341 424424

TimAnabledDysguDeGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

DERWEN – Tîm Integredig Plant Anabl

Derwen
Bron Hendre
Ffordd Y De
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2HP

01286 674686

Derwen@gwynedd.llyw.cymru

GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD

Ffôn: 01758 704455

cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru